

# RYDYM YN RECRIWTIO

Ymunwch a'r tim yn Hamdden Sir Ddinbych







**Teitl y Swydd:** Rheolwr Bwyty - 1891

**Graddfa:** 8 (yn amodol ar ddilysiad)

**Cwmni:** Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

**Maes Gwasanaeth:** 1891 y Rhyl

**Yn atebol i:** Rheolwr Gweithrediadau  
Bwyd a Diod Grŵp

**Rhif y Swydd:** I'w gadarnhau

**Dyddiad Cyhoeddi:** I'w gadarnhau

## **Sut i wneud cais:**

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy'r wefan [www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk). Ar gyfer dulliau eraill cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly caiff ffurflenni cais eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

# Llythyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Helo, fy enw i yw Jamie Groves, a fi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddem yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddisbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwell nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Cwt y Traeth ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda tair oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm ac ethig gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



*'Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr'*



# Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg; sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon ragorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.



## Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Rheolwr Bwyty - 1891

Graddfa: 8 (yn amodol ar ddilysiad)

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Maes Gwasanaeth: 1891 y Rhyl

Yn atebol i: Rheolwr Gweithrediadau Bwyd a Diod Grŵp

Rhif y Swydd / Dyddiad Cyhoeddi: I'w gadarnhau

### Pwrpas y Swydd:

Ers agor yn 2018, mae 1891 wedi sefydlu ei hun fel un o'r bwytai mwyaf mawreddog yn y rhanbarth, yn darparu bwyd a diod ysblennydd gyda gwasanaeth eithriadol efo golygfeydd syfrdanol o Arfordir Gogledd Cymru yn gefndir i'r cyfan. Yn ogystal, mae wedi sefydlu ei hun fel lleoliad unigryw ar gyfer digwyddiadau, partïon, cyfarfodydd a digwyddiadau corfforaethol.

Yn rhan o gyfandeilad Theatr y Pafiliwn, gyda bar caffi newydd, cyffrous a phrofiad bwyta awyr agored i agor yn ystod y Gwanwyn, disgwylir i 1891 ddod yn rhan annatod o'r cyrchfannau bwyd, diod ac adloniant mwyaf cyffrous yn y rhanbarth.

Bydd y rôl hon yn arwain ac yn rheoli gweithrediadau 1891, yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ar gyfer timau blaen a chefn y bwyty ac mi fydd yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r cwmni ar gyfer profiad cwsmeriaid a thŵf.



## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

- Cydlynu gweithrediadau Blaen a Chefn Tŷ i gyflawni targedau refeniw, elw ac ansawdd y bwyty.
- Cynllunio rota wythnosol ar gyfer timau blaen a chefn tŷ, sicrhau bod y rota yn cydfynd â lefelau busnes.
- Sicrhau bod timau blaen a chefn tŷ yn drefnus, bod ganddynt adnoddau digonol, wedi eu hyfforddi a'u hysgogi i ddarparu twf a gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol.
- Cyflawni safonau diogelwch bwyd, cynhyrchiant, ansawdd a gwasanaeth cwsmer rhagorol.
- Sicrhau monitro a rhagweld cywir o ran incwm a gwariant bwyty.
- Monitro incwm, stoc a gwerthiant cynnyrch y bwyty i sicrhau bod tueddiadau a chyfleoedd yn cael eu hadnabod.
- Datblygu'r tîm bwyd a diod trwy ddenu, recriwtio, hyfforddi a gwerthuso personél dawnus.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol a thrin arian wedi eu sefydlu o fewn y bwytai.
- Sicrhau bod prosesau cyflogau wedi eu sefydlu ac y cyrhaeddir dyddiadau cau.
- Monitro a dehongli tueddiadau diwydiant ac adborth cwsmeriaid i sicrhau bod cynnig bwyd a diod y cwmni ar y blaen o ran cysyniadau bwyd a diod ac yn ymateb i'r galw.
- Gweithio gyda Rheolwr Bwyd a Diod a Phennaeth Marchnata'r Grŵp ynghylch datblygu cynnyrch sy'n gyrru twf mewn ffrydiau incwm cynradd ac eilaidd, gan gynnwys cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau.
- Cyfathrebu a sefydlu perthnasau cryf gyda'r cadwyni cyflenwi i sicrhau'r cyfraddau prynu gorau sydd ar gael.



## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

- Arwain ar ddatblygiad a gwelliant parhaus safonau'r gwasanaeth ar draws y portffolio bwyd a diod.
- Gweithio gyda'r Prif Gogyddion i ddylunio bwydlenni, prynu a rheoli stoc i sicrhau y cyrhaeddir targedau a lefelau ansawdd.
- Sicrhau bod cydymffurfiaeth â safonau Hylendid Bwyd, Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi'i sefydlu ar draws y portffolio.
- Dilyn polisiau a gweithdrefnau'r cwmni o ran trin arian, eiddo, stoc ac offer.
- Sicrhau agwedd ragweithiol tuag at drwsio a chynnal a chadw i gynnal safon yr adeilad.
- Bod yn hyblyg, yn barod i addasu ac yn fodlon gweithio ar safleoedd eraill yn ôl y galw, a allai gynnwys cyfleusterau bwyd a diod eraill.
- Mae'r swydd hon yn un ymarferol ac â chyswllt agos iawn â rhediad o ddydd i ddydd bob agwedd ar weithrediadau o ddydd i ddydd y bwyta.





## Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Bydd deiliad y swydd yn:

- Weithiwr bwyty proffesiynol profiadol a medrus sy'n mwynhau her ac sydd â'r dyfalbarhad i lwyddo.
- Yn meddu ar y sgiliau a'r profiad i feithrin perthnasau gweithio cryf gyda staff, partneriaid, a chwsmeriaid y Cwmni.
- Profiad o reoli staff a chyllid yn effeithiol i gyflawni gwasanaethau ac amcanion, a'r gallu i wneud hyn.
- Profiad a dealltwriaeth o weithrediadau blaen a chefn tŷ sy'n rhan o gyflwyno profiad gwestai lletygarwch o ansawdd uchel.
- Gallu gweithio mewn amgylchedd prysur a deinamig.
- Meddu ar gymhwyster rheolaeth arlwy cydnabyddedig a/neu dwy flynedd o brofiad o arwain a rheoli o fewn sefydliad bwyd a diod prysur neu faes tebyg.
- Trwydded Alcohol Bersonol gyda gwybodaeth dda am y diwydiant trwyddedu.
- Gwybodaeth am gyllidebu a rhagolygon, a gallu a brofwyd i yrru twf busnes.
- Gwybodaeth am brosesau hylendid bwyd, diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch.





## Goruchwyllo / Rheoli Pobl

Gyfrifol am hyd at 30 o staff bwyta blaen y tŷ a chefn y tŷ, gan gynnwys Goruchwylwyr bwyty, Swyddogion Dyletswydd Bwyd a Diod, Arweinwyr Tîm, Cymhorthwyr Bwyd a Diod, Prif Gogydd, Cogydd Sous, Cogyddion Cynorthwyol a Phorthorion Cegin.

## Cyfrifoldeb am Gyllid ac Asedau

Refeniw: Oddeutu £1 miliwn y flwyddyn

Cyfrifoldeb am ddiogelwch y cyfleuster

Cyfrifoldeb am offer cegin, bwyty a'r bar, tiliau a Systemau EPOS.

Darperir gliniadur, cyfrifiadur a ffôn symudol ar gyfer defnydd busnes.

## Amodau Gwaith Arbennig

- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod â'r gallu i deithio ar draws Sir Ddinbych, a thelir lwfans am hyn, ond mae hyn yn cael ei adolygu.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb fawr o oruchwyliaeth yn ôl y gofyn, ac mae'n rhaid i'r unigolyn allu profi ei fod yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun.
- Gallu blaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser.
- Disgwylir i ddeiliad swydd weithio dros y penwythnos a gyda'r nos, ac oriau anghymdeithasol iawn sy'n gymesur â'r swydd a'r diwydiant



## Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; a gwneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'n gweithlu llawn cymhelliant sy'n gweithio o fewn diwylliant gwych a gwerthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynu at ein egwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri piler pwysig ac unigryw, sy'n sail ac yn ddylanwad ar y ffordd yr ydym yn gweithio a'r rheswm dros greu'r Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n cydweithio â'i bartneriaethau a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu ac yn datblygu ei weithlu- mae'r Cwmni yn credu'n gryf mewn athroniaeth 'un tîm – un cyfrif banc'.



## Tair piler o Hamdden Sir Ddinbych Cyf

### Ein Cymuned

Yn ardal Sir Ddinbych yn ehangach mae ein timau yn gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a phreswylwyr. Mae'r cymunedau hyn yn greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud.

### Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn eu dwyn i'w rôl ac er bod y cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau yr un rhinweddau yn gyffredin - maent yn llawn angerdd a chymhelliant am eu gwaith, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am wasanaeth cwsmer rhagorol.

### Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn gwmni newydd a adeiladwyd ar gefndir o berfformiad uchel ac ymarfer arloesol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth o fewn Cyngor Sir Ddinbych, rydym wedi sefydlu perthnasau parhaus sy'n fuddiol i bawb gyda nifer o sefydliadau partner. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. O fewn bob perthynas, rydym wedi ymrwymo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwarteisi.

*Mae'r deiliad swydd yn allweddol i sicrhau '....erbyn 2030 bydd y cwmni yn parhau i fod yn adnabyddus am ddarparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad, a gwella lles preswylwyr ac ymwelwyr Sir Ddinbych'.*





## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU. Mae angen gwiriad DBS Uwch ar gyfer y rôl hon hefyd.

## Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth. Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y sefydliad. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.





# Manylion am yr Unigolyn

Mae'r manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd: Rheolwr Bwyty - 1891

Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Graddfa : 8 (yn amodol ar ddilysiad)

Cymwysterau, Gwybodaeth, Profiad, Sgiliau a Galluoedd, Sgiliau a Galluoedd & Rhinweddau Personol

## Hanfodol

### Cymwysterau

Dangos bod gennych gymhwyster rheoli arlwyo cydnabyddedig a / neu 2 flynedd o brofiad yn arwain a rheoli mewn lleoliad brysur bwyd a diod neu faes tebyg.  
Tystysgrif Lefel 2 mewn Hylendid Bwyd  
Trwydded Alcohol Personol

### Gwybodaeth

Dealltwriaeth fasnachol gref o'r sector arlwyo.

## Profiad

Profiad o weithio ar lefel rheoli mewn sefydliad amrywiol a chymhleth o fewn y sector arlwyio cyhoeddus neu breifat.

Profiad amlwg o rheoli timau amlddisgyblaethol llwyddiannus

Profiad o reoli staff, cyllid ac eiddo yn effeithiol i gyflawni gwasanaethau ac amcanion, a'r gallu i wneud hyn.

Profiad o ddelio gyda chwsmeriaid mewn amgylchedd arlwyio prysur a deinamig iawn.

## Sgiliau a Galluoedd

Gallu gweithio'n gydweithredol ac yn gorfforaethol fel rhan o dîm.

Gallu darparu gweledigaeth a chyfeiriad clir, ysbrydoli ac ysgogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy ymddygiad rôl da a chysondeb yn y dull gweithredu.

Gallu cyflwyno a chefnogi newidiadau yn ôl yr angen.

Gallu i addasu i newidiadau a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau.

Gallu defnyddio a chymhwyso sgiliau TGCh perthnasol yn unol â natur a gofynion y swydd.

Gallu dylanwadu ar eraill i ddarparu'r lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid.

### **Sgiliau a Galluoedd**

Sgiliau cyfathrebu / cyflwyno rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar

Gallu dangos sgiliau o safon uchel mewn diplomyddiaeth, tact, perswâd, cyd-drafod, eiriolaeth a phendantrwydd.

### **Rhinweddau Personol**

Ymateb yn llwyddiannus i anghenion dynodedig cwsmeriaid.

Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmer

Ymwybyddiaeth gref o'ch atebolrwydd eich hun ac eraill.

Dangos gwytnwch ac ymwrthedd dan bwysau.

Addasu arddull bersonol i gwrdd â gofynion sefyllfaoedd cymhleth.

Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth:

Empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru..



**Diolch am eich diddordeb.**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'n Gwyn Hughes ar 01824 712707 /  
gwyn.hughes@hamddensirddinbych.co.uk.



[www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk)



Hamdden Sir Ddinbych

@Hsirddinbych